

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

DYDD LLUN, 30 TACHWEDD 2020

Yn
bressenol: Cynghorydd Jones-Pritchard(Cadeirydd)

Cynghorwyr Burke-Davies, Bowden, Goddard, Goodway,
Kelloway, Lay, Naughton, Keith Parry, Mia Rees a/ac Sandrey

27 : DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'u cyfrifoldeb dan Ran III Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant yn gyffredinol a chwblhau ffurflenni buddiannau personol ar ddechrau'r cyfarfod ac yna, cyn dechrau trafod yr eitem dan sylw, nodi a yw'n fuddiant personol neu sy'n rhagfarnol. Os yw'r buddiant yn rhagfarnol, gofynnir i Aelodau adael y cyfarfod ac os yw'r buddiant yn bersonol, bydd Aelodau'n cael eu gwahodd i aros, siarad a phleidleisio.

28 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020 yn gofnod cywir gan y Pwyllgor ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

29 : ADRODDIAD GWEITHGAREDDAU A PHERFFORMIAD GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD (I DDILYN)

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd am berfformiad Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor ers y cyfarfod diwethaf ar 13 Ionawr 2020.

Nid oedd y Tîm Gwasanaethau Aelodau wedi newid ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor. Ar ddechrau cyfnod clo cychwynnol y Coronafeirws dechreuodd y Tîm weithio'n ystwyth, ac eithrio nifer fach o dasgau hanfodol, ac mae wedi parhau i weithio o bell i ddarparu'r gwasanaeth.

Roedd System Ymholiadau'r Aelodau yn arf pwysig i ddelio'n effeithiol â'r materion a godwyd gan drigolion gyda'u Cynghorydd. Mae gan dîm Gwasanaethau Aelodau gyfrifoldeb gweithredol dros System Ymholiadau'r Aelodau sy'n cynnwys ymholiadau logio i roi data i Uwch Reolwyr ar y materion gwasanaeth allweddol, amllder logio a thueddiadau. Mae cymhlethdod a natur aml-wasanaeth rhai ymholiadau yn golygu y gall amseroedd ymateb fod yn fwy na'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) 10 diwrnod gwaith.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y wybodaeth yn yr adroddiad, gan gyfeirio at yr Aelodau'n hunan-wasanaethu, sef 47.22%. Roedd yn bwysig bod Tîm Gwasanaethau'r Aelodau yn cael eu defnyddio i gefnogi'r ymholiadau, gan symud ymlaen i 2021.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gellid bod wedi disgwyl gwelliant posibl yn nifer yr ymholiadau hunanwasanaeth gyda gwaith ystwyth cynghorwyr oherwydd y cyfyngiadau symud. Nid yw'r cynnydd cychwynnol wedi'i gynnal ac efallai y bydd angen ymchwilio ymhellach i nodi'r rhwystrau sy'n atal y defnydd parhaus o'r system hunanwasanaeth.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am y system NethelpDesk newydd, Halo, sy'n cefnogi ymholiadau aelodau. Roedd Halo yn cael ei gyflwyno ar draws y sefydliad a byddai'n cael ei fonitro gan Wasanaethau'r Aelodau. Byddai gan y Tîm Gwasanaethau Aelodau fynediad i fonitro a dosbarthu pob ymholiad.

Roedd aelodau'r Pwyllgor o'r farn, os yw'n bosibl, y dylai aelodau fod yn logio eu hymholiadau eu hunain, a oedd yn caniatáu i Dîm Gwasanaethau'r Aelodau fynd i'r afael â materion eraill megis materion ward ac uno post.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid anfon nodyn at bob aelod i annog y defnydd o'r system hunanwasanaeth.

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am Wasanaethau Craffu.

Diwygiwyd y trefniadau craffu yn dilyn y cyfyngiadau symud a chrëwyd Panel Craffu Covid-19. Heb y cyflenwad llawn o Bwyllgorau Craffu, cytunwyd y gellid adleoli tri o'r swyddogion craffu tan fis Medi. Cafodd un swyddog craffu ei secondio fel y Rheolwr Diogelwch Cymunedol dros dro gyda'r ddau arall wedi'u secondio i rôl Arweinwyr Tîm o fewn Gwasanaeth Tracio ac Orlhain y Cyngor.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y ddau Brentis Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd wedi cwblhau eu Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2 Gweinyddu Busnes yn llwyddiannus gyda Choleg Caerdydd a'r Fro ym mis Mehefin 2020. Yn anffodus, ar ddiwedd eu prentisiaeth nid oedd unrhyw swyddi gwag o fewn y Tîm Gwasanaethau Democrataidd ond fe'u cefnogwyd i ddod o hyd i rolau eraill gydag un ohonynt yn cael ei gyflogi mewn rôl weinyddol o fewn y Cyngor.

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y Gwasanaethau Etholiadol.

Ym mis Awst penderfynodd y Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol adael yr Awdurdod. Mae rhywun newydd wedi'i recriwtio a byddai'n dechrau ar 4 Ionawr 2021. Roedd trefniadau rheoli dros dro wedi'u rhoi ar waith nes bod y rheolwr newydd yn ymuno â'r Awdurdod.

Roedd y Gwasanaethau Etholiadol hefyd yn ymdrin â materion mewn perthynas ag Arolwg Ffiniau.

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am Wasanaethau'r Pwyllgorau.

Dechreuodd tîm y Pwyllgorau'r flwyddyn gyda swydd wag yn rôl yr Uwch Bwyllgor a'r Swyddog Gwasanaethau Aelodau. Cynhaliwyd recriwtio a phenodwyd Mandy Farnham i'r rôl gan adael swydd wag ar gyfer Pwyllgor a Swyddog Gwasanaethau Aelodau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r swydd wag hon a'r anallu i recriwtio i rôl y Sawl sy'n Cymryd Nodiadau ar gyfer Apeliadau Addysg, roedd opsiynau eraill yn cael eu hystyried i ddarparu cyfleoedd dilyniant gyrfa o fewn y tîm a gwella ei allu i gefnogi a datblygu gwasanaethau i Aelodau Etholedig.

Tynnodd aelodau'r Pwyllgor sylw at y swyddi gwag a gofynnodd a oedd y Cyngor yn defnyddio cyfweiliadau ymadael i ganfod pam yr oedd yr aelod penodol hwnnw o staff yn gadael.

Sicrhawyd y Pwyllgor y darparwyd cyfweiliad ymadael er mwyn nodi'r rhesymau dros adael. Mewn perthynas ag Apeliadau Addysg, roedd hyn o ganlyniad i faint o waith a'r raddfa gyflog.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor pam na allai Addysg gefnogi swydd y Sawl sy'n Derbyn Nodiadau ar gyfer Apeliadau Addysg.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod yn rhaid i rôl y Sawl sy'n Derbyn Nodiadau ar gyfer Apeliadau Addysg fod yn annibynnol ar Addysg. Hyd yma roedd Swyddog Gwasanaethau Aelodau wedi cefnogi'r rôl hon.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor, o dan bwerau statudol a roddwyd yn Neddf Coronafeirws 2020, fod Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 ('y Rheoliadau'), sy'n llacio'r rheolau dros dro ar gyfer cyfarfodydd awdurdodau lleol yn ystod cyfnod ymateb COVID-19. Daeth y Rheoliadau i rym ar 22 Ebrill 2020 ac ar waith tan 30 Ebrill 2021.

Roedd y Rheoliadau'n caniatáu i gyfarfodydd awdurdod lleol gael eu cynnal o bell gan ddefnyddio unrhyw offer neu gyfleuster a oedd yn caniatáu i Aelodau siarad â nhw, a chael eu clywed ganddynt. Roedd y rheolau newydd ar bresenoldeb o bell yn berthnasol i unrhyw gyfarfodydd o'r Cyngor, y Cabinet, y Pwyllgorau neu'r Cydbwyllgorau (neu Gynghorau Cymunedol) a gynhaliwyd cyn 1 Mai 2021.

Trafododd y Pwyllgor effeithiau cyfarfodydd o bell, gyda chyfarfodydd 6-7 awr y Cyngor a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar staff ac aelodau.

Trafododd y Pwyllgor y posibilrwydd y gallai'r Cyngor ddefnyddio Zoom fel llwyfan cyfathrebu, ynghyd â'r posibilrwydd o gyfarfodydd Hybrid.

Awgrymodd aelodau'r Pwyllgor fod y Pwyllgor Cyfansoddiad yn mynd i'r afael â hyd y cyfarfodydd ac o bosibl yn diwygio rheolau'r weithdrefn.

Rhodddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am weithredu Cyfarfodydd Hybrid a sut y byddent yn cael eu rheoli.

Esboniodd yr Aelodau, er mwyn i gyfarfodydd gael eu cynnal yn unol â hynny, fod yn rhaid cadeirio'r cyfarfodydd yn unol â hynny ac yn unol â rheolau gweithdrefn cyfarfod y Cyngor. Gallai'r Pwyllgor Cyfansoddiad hefyd edrych ar ddulliau pleidleisio.

Cytunodd y Pwyllgor fod y Pwyllgor Cyfansoddiad yn edrych ar reolau'r weithdrefn.

Rhodddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am We-ddarlledu.

Mae'r Cyngor wedi caffael ei contract gweddarlledu a ddyfarnwyd i Public-I. Mae'r contract 3 blynedd wedi galluogi'r Cyngor i leihau ei gostau gweddarlledu ac i gynnal nifer yr awr we-ddarlledu. Dylid nodi mai dim ond 100 awr o we-ddarlledu a

gynlluniwyd i ddechrau yn 2020-21 gyda phob un o'r 2 flynedd arall o'r contract yn cael 200 awr o oriau gwe-ddarlledu i gefnogi gofynion y Bil Llywodraeth Leol.

Rhodddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am Ddatblygu Aelodau.

Defnyddio Academi Caerdydd a sut y cyhoeddwyd ardystiadau ar ôl eu cwblhau.

Roedd y rhaglenni hyfforddiant canlynol yn cael eu trefnu:

1. Cynllun Datblygu Lleol – Ymgynghoriad
2. Bioamrywiaeth
3. Hyfforddiant Rhianta Corfforaethol
4. Seiber-Ddiogelwch

Trafododd y Pwyllgor les aelodau a byddai digwyddiad cymdeithasol rhithwir posibl yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos.

30 : ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2021/22

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Hwn oedd trydydd Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel), a'r degfed a gyhoeddwyd o dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd).

Er bod yr Adroddiad drafft hwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Panel ar gyfer 2021/2022, mae'n anochel bod effaith y pandemig coronafeirws wedi dylanwadu ar ystyriaeth. Effeithiodd y materion parhaus ar weithrediad yr holl awdurdodau lleol a byddent yn parhau i wneud hynny hyd y gellir rhagweld.

Fel yn achos holl Adroddiadau Blynyddol y Panel, roedd y penderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn Adran 1. Ym mis Mai 2020 cyhoeddodd y Panel Adroddiad Atodol a oedd yn nodi egwyddorion penodol sy'n ymwneud â darparu cymorth ariannol ar gyfer anghenion gofal. Ymgorfforwyd y rhain yn Adran 10 a byddent yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol yn y dyfodol.

Trafododd y Pwyllgor Egwyddorion Cydnabyddiaeth Aelodau, Codau Ymddygiad a thaliadau i Aelodau Etholedig.

Nododd y Pwyllgor yr argymhellion yn yr adroddiad.

31 : ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIADAU

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Ymgynghoriadau.

Roedd yr adroddiad yn galluogi'r Pwyllgor i ystyried dogfennau ymgynghori Llywodraeth Cymru, ac ymatebion y Pwyllgor mewn perthynas â:

- Newidiadau i absenoldeb mabwysiadu ar gyfer aelodau awdurdodau lleol

- Trefniadau ar gyfer y Gronfa Mynediad i Swyddfeydd Etholedig Cefndir

Absenoldeb Mabwysiadu 2.

Mae Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 (y Rheoliadau) yn rheoli absenoldeb mabwysiadwyr (y math o absenoldeb a gymerir gan unigolyn sy'n mabwysiadu plentyn). Cynigiodd Llywodraeth Cymru ddiwygio Rheoliadau 2013 er mwyn ymestyn y cyfnod o absenoldeb mabwysiadwydd ar gyfer aelodau cynghorau o 2 wythnos i 26 wythnos ac, cyn belled ag y bo'n ymarferol, i gysoni gweithdrefnau sy'n ymwneud ag absenoldeb mabwysiadwyr â'r rhai sy'n rheoli absenoldeb mamolaeth ar hyn o bryd.

Mynediad i Gronfa'r Swyddfa Etholedig 3.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynyddu amrywiaeth ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan weithredol mewn democratiaeth leol drwy sefyll mewn swydd etholedig. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwmo i nodi ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn a chynyddu cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol chwarae rhan lawn yn y gwaith o gefnogi a chynrychioli eu cymunedau.

PENDERFYNWYD:

Cytunodd y Pwyllgor i:

- 1) nodi darpariaethau dogfennau ymgynghori Llywodraeth Cymru, a nodir yn Atodiad A ac Atodiad B, i'r graddau y maent yn ymwneud â materion o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, ac yn rhoi sylwadau fel y bo'n briodol; a
- 2) dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i baratoi a chyflwyno ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ran y Pwyllgor.

32 : BLAENRAGLEN WAITH (I DDILYN)

Diben yr adroddiad hwn oedd cynnig pynciau i'w cynnwys ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'r canlynol yn rhestr o'r gweithgareddau y cytunwyd arnynt neu a gynigiwyd yn flaenorol:

- a. Adolygu Strategaeth Ddysgu a Datblygu'r Aelodau Etholedig
- b. Disgrifiadau Rolau'r Aelodau Etholedig
- c. Goblygiadau'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)
- d. Cyflwyno sesiwn Darpar Ymgeisydd i'r rhai sy'n dymuno sefyll yn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022
- e. Cynigion ar gyfer Digwyddiadau Democratiaeth Leol
- f. Adolygiad o'r cynllun Mentora Aelodau
- g. Y broses Adolygu Personol ar gyfer aelodau etholedig
- h. Rhaglen Datblygu Aelodau 2021 8. Mae'r paragraffau canlynol yn nodi pynciau allweddol y gellid eu hystyried i'w cynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2021

Mae'r paragraffau canlynol yn nodi pynciau allweddol y gellid eu hystyried i'w cynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2021

- a. Rhaglen sefydlu ar gyfer y Cynghorwyr a etholwyd yn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022
- b. Nodi TGCh a'r offer cysylltiedig sy'n angenrheidiol ar gyfer Aelodau Etholedig yn dilyn Etholiad Llywodraeth Leol 2022
- c. Nodi gwasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol i Aelodau Etholedig er mwyn gallu blaenoriaethu adnoddau cyfyngedig y Timau Gwasanaethau Democrataidd.
- d. Arolygon Aelodau – Blynyddol ac Ymadael

Trafododd y Pwyllgor faterion cyllidebol gan gynnwys costau awdurdodau lleol.

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD y Pwyllgor i:

Argymhell bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried yr adroddiad hwn ac yn nodi ac yn blaenoriaethu pynciau i'w hystyried yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol.

33 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw faterion bryd i'w trafod.

34 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 11 IONAWR 2021

Daeth y cyfarfod i ben am 7.09 pm